Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-VG-1744-21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Mehefin 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 30 Mehefin 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i estyn y moratoriwm a gyflwynwyd gan adran 82 o Ddeddf Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf"), sy'n gwahardd arfer yr hawl ailfynediad neu fforffediad o dan denantiaeth busnes berthnasol am fethu talu rhent, drwy gymryd camau gorfodi neu fel arall. Yn wreiddiol roedd y Ddeddf yn ymdrin â'r cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2020 ond mae wedi cael ei hestyn nifer o weithiau (ar hyn o bryd, tan 30 Mehefin 2021) oherwydd natur barhaus y problemau a wynebir oherwydd y pandemig. Mae'r offeryn statudol hwn yn estyn y warchodaeth am dri mis arall, tan 30 Medi 2021.

Mae angen dybryd sicrhau bod y cyfnod perthnasol yn cael ei estyn ar ôl 30 Mehefin. Rhaid cadw nifer y busnesau sydd o dan fygythiad byw o gael eu troi allan o'u heiddo yn fach, fel cyfraniad at yr amrywiaeth o fesurau sy'n ymateb i effeithiau parhaus y pandemig. Daw'r Rheoliadau hyn felly i rym ar 30 Mehefin 2021 i sicrhau nad oes bwlch yn y warchodaeth i denantiaid. Mae hyn yn golygu na fydd y Rheoliadau'n dilyn y confensiwn na fydd llai na 21 diwrnod o fwlch rhwng gosod y Rheoliadau a'u dyddiad dod i rym. Mae'r penderfyniad i estyn y cyfnod perthnasol wedi'i wneud fel ymateb i sefyllfa sy'n newid beunydd a chan fod ansicrwydd o hyd ynghylch effaith amrywiolion newydd y feirws. Roedd yn hanfodol gwneud y penderfyniad hwn i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i filwrio yn erbyn effeithiau'r pandemig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi; Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, ac mae hefyd wedi cael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r ddau yn cael eu gosod gyda'i gilydd, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, y Gogledd a'r Trefnydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy